



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:  
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig  
European Agricultural Fund for Rural Development:  
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# BRICs – Building Resilience in Catchments



## Beth yw BRICs?

Mae BRICs yn brosiect a fydd yn:

- Gwella gwaith rheoli dŵr, maethynnau a chynefinoedd ar ffermydd
- Lleihau lefel y maethynnau sy'n mynd i mewn i Ddyfrffordd y Ddau Gleddau
- Creu cynllun masnachu maethynnau
- Cynnig potensial ar gyfer cyfleoedd i fuddsoddi yn Sir Benfro yn y dyfodol

Bydd y prosiect o fudd i ffermydd, yn economaidd yn ogystal ag yn amgylcheddol, gan greu diwylliant o arweinwyr busnes.

## Ymweliad â Gwaith Trin Dŵr Bolton Hill

Gwnaeth ffermwyr o ddalgylchoedd afonydd Pelcomb Brook a Winterton Marsh fwynhau ymweliad addysgiadol â Gwaith Trin Dŵr Bolton Hill.

Mae Dŵr Cymru yn dymuno gweithio mewn partneriaeth gyda ffermwyr i wella ansawdd dŵr yfed crai. Felly, gan weithio ar y cyd â phrosiect BRICs, er mwyn helpu i gyrraedd y nod hwn, cafodd pob ffermwr yn nalgylchoedd afonydd Pelcomb Brook a Winterton Marsh wahoddiad i ymweld â Gwaith Trin Dŵr Bolton Hill.

Gwnaeth staff gweithredol gwybodus dywys y ffermwyr o amgylch y safle. Esboniwyd yr holl gamau gwahanol yn y broses driniaeth o echdynnu dŵr crai hyd at ddŵr sydd wedi ei drin yn llawn ar gyfer ei ddosbarthu i ddefnyddwyr domestig a masnachol.

Cafodd gwybodaeth am gemeg a ffiseg y rhai a oedd yn bresennol ei herio ond gadawodd pawb yn llawer fwy gwybodus, gyda gwell dealltwriaeth o sut y gall rhai arferion amaethyddol effeithio

ar y broses driniaeth a'i gwneud yn anoddach i droi dŵr o afonydd dŵr yfed yn ddŵr yfed perffaith.

Mae BRICs yn brosiect ymchwil sy'n mabwysiadu dull arloesol o reoli adnoddau naturiol yn yr ardal, er budd cymunedau a busnesau'r ardal.

Mae partneriaid y prosiect yn cynnwys y gadwyn gyflenwi, rheolwyr tir, diwydiant, mudiadau cadwraeth, undebau ffermio, Dŵr Cymru, cwmnïau cydweithredol ffermio, awdurdodau, Cyfoeth Naturiol Cymru a chymunedau yn cydweithio i feithrin cadernid mewn busnesau fferm.

Ar yr un pryd, bydd y prosiect yn cyfrannu at ddatblygiad economaidd cynaliadwy.



## Samplu maethynnau yn y pridd

Gan weithio mewn partneriaeth gyda CCF (Clunderwen and Cardiganshire Farmers Ltd Ceredigion) ac Agrovista, mae gwaith samplu maethynnau yn y pridd mewn modd sydd wedi'i dargedu wedi dechrau ar ffermydd sy'n cymryd rhan ar draws y tri is-ddalgylch ym mhrosiect BRICS.

Lle y nodwyd ei fod yn fuddiol treialu taenu maethynnau yn fwy manwl gywir, bydd Agrovista yn cynnal profion dargludedd pridd a samplu grid o bridd o gaeau y cytunwyd arnynt.

Byddant yn mesur pH, P, K a Mg yn ogystal â dargludedd pridd (math o bridd). Yna, bydd y ffermwr yn cael canlyniadau'r dadansoddiad pridd a chynllun gwasgaru gwrtaith cyfradd amrywiol pwrpasol, gan ystyried y cnydau a gwasgaru tail/slyri. Bydd Agrovista yn darparu'r cynllun gwasgaru cyfradd amrywiol pwrpasol i'r ffermwr ar gyfer y pedair blynedd nesaf.

Lle bo angen cymorth o ran taenu maethynnau yn unol â'r cynlluniau gwasgaru gwrtaith cyfradd amrywiol, bydd y prosiect yn cynorthwyo drwy

Rydym yn dal i obeithio y bydd ffermwyr newydd yn ymuno â ni i weithio ar wella gwaith rheoli dŵr, maethynnau a chynefinoedd. I annog cyfranogwyr newydd ar gyfer y prosiect cynhaliodd CCF (Clunderwen and Cardiganshire Farmers) ymgyrch bostio i'w haelodau yn y tri is-ddalgylch ar gyfer prosiect BRICS.



## Codi ymwybyddiaeth am briddoedd iach

Gwnaeth Prosiect BRICS, ar y cyd â Puffin Produce, gynnal dau weithdy iechyd a thrin pridd yn nalgylch Winterton Marsh.

Arweiniodd Mark Stalham, arbenigwr agronomeg iechyd pridd a thatws adnabyddus o NIAB Fferm Prifysgol Caergrawnt, ddau weithdy ymarferol manwl a hynod ddiddorol. Cafodd ffermwyr a oedd yn bresennol gynnig cyngor ar sut i asesu iechyd eu priddoedd ac roeddent hefyd yn gallu elwa ar wybodaeth eang a phrofiad helaeth Mark ar ffyrdd o wella eu pridd drwy drin y tir yn well. Roedd digon o gyfle i drafod gwreiddiad, pridd dwrlawn, amsugno maethynnau, a chapasiti dal dŵr pridd.

Diolch i R E Evans Farms Ltd a J Llewellyn and Co. a fu'n garedig iawn yn cynnal y gweithdai.



## Datblygu Prosiect BRICS

Mae BRICS yn brosiect ymchwil sy'n mabwysiadu dull arloesol o reoli adnoddau naturiol yn yr ardal, er budd cymunedau a busnesau'r ardal.

Mae cymryd camau i wella cadernid ffermydd yn rhoi budd economaidd i ffermwyr, dŵr glanach a chyfleoedd i fuddsoddi. Bydd BRICS yn darparu'r canlynol tuag at y nod hwn:

- Cyngor arbenigol am ddim
- Cynlluniau cadernid fferm
- Help i sicrhau cyllid tuag at fapio maethynnau yn y pridd, ffermio manwl gywir a, lle bo hynny'n briodol yn dilyn argymhelliad, creu hyd at 10 o wlyptiroedd

Rydym yn gweithio gyda 3 ffermwr sydd wedi gwirfoddoli a chytuno'n garedig i helpu i ddatblygu a phrofi sut y bydd ymweliadau gan y Swyddog Prosiect ac arbenigwyr o CNC ac ADAS yn gweithio'n ymarferol.

Mae'r cyfranogiad cynnar hwn yn amhrisiadwy i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei chasglu, bod y drafodaeth a'r cyngor a ddarperir

yn berthnasol ac yn ddefnyddiol, ac y bydd fformat yr adroddiad cadernid fferm yn berthnasol ac yn cael ei gyflwyno mewn modd hawdd ei ddefnyddio. Mae eu cydweithrediad hwy yn ogystal â 3 ffermwr allweddol arall, sydd wedi rhoi eu hamser i gynorthwyo'r Swyddog Prosiect yn y cam cynnar hwn, yn helpu i lunio a datblygu'r prosiect.

### **Monitro ansawdd dŵr**

Mae BRICS yn brosiect ymchwil sy'n mabwysiadu dull arloesol o reoli adnoddau naturiol yn yr ardal, er budd cymunedau a busnesau'r ardal.

Mae Dŵr Cymru yn bartner ar Grŵp Llywio Prosiect BRICS ac yn cymryd rhan weithredol wrth gyfrannu at y ddwy ffrwd waith.

Mae'r arian cyfatebol a ddarperir gan Dŵr Cymru i'r prosiect yn cael ei ddefnyddio i fonitro a rhannu data am ansawdd dŵr o is-ddalgylchoedd Pelcomb Brook a Llys-y-frân. Mae dwy ddyfais sonde wedi'u defnyddio yn is-ddalgylch Pelcomb Brook ac mewn is-ddalgylch cyfagos (Rheoli) i fesur gwahanol bamedrau gan gynnwys maethynnau (amonia), afloywder a pH.

Mae'r dŵr yn Nyfrffordd y Ddau Gleddau ac Ardal Cadwraeth Arbennig Sir Benfro Forol o'i chwmpas yn cynnwys gormod o nitrogen a ffosfforws.

Mae hyn yn golygu ei fod yn methu â chyrraedd safonau

ansawdd dŵr statudol ac mae'r gorfaethu yn bygwth bywyd gwyllt gwarchoddedig pwysig a'u cynefinoedd.

Mae hefyd yn golygu bod y ddyfrffordd yn cael ei hystyried yn "llawn", heb gapasiti i dderbyn unrhyw fewnbwn ychwanegol o faethynnau, sy'n rhwystr o ran unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol.

Mae'r dull BRICS yn ymwneud ag atal llygredd rhag mynd i mewn i gyrsiau dŵr yn hytrach na dibynnu ar atebion 'diwedd pibell', fel trin dŵr, gan sicrhau manteision eraill i'r economi a'r amgylchedd.

Mae BRICS yn edrych yn ehangach ar yr amgylchedd ac yn ystyried y cysylltiadau rhwng yr amgylchedd a'r bobl sy'n ei reoli. Dyma enghraifft o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR). Mae meithrin gwytnwch y dalgylchoedd a'r ffordd y cânt eu rheoli yn golygu y byddant yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd yn well a phwysau a galwadau cynyddol ar waith rheoli tir ac afonydd.

Bydd y prosiect o fudd i ffermydd, yn economaidd yn ogystal ag yn amgylcheddol, gan greu diwylliant o arweinwyr busnes.

Os ydych chi'n ffermwr neu'n berchennog tir ac yn dymuno cael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Emma Taylor, Swyddog Prosiect BRICS ar 01834 860965 neu [emmat@planed.org.uk](mailto:emmat@planed.org.uk).

Os oes gennych ddiddordeb neu os ydych chi'n credu yr hoffech gymryd rhan mewn cynllun masnachu maethynnau, cysylltwch â Paul Renfro, Swyddog Prosiect BRICS ar 01646 405693 neu [paul.renfro@pembrokeshirecoas-talforum.org.uk](mailto:paul.renfro@pembrokeshirecoas-talforum.org.uk)



### **Cynorthwyo prosiect SWEPT**

Ymunodd Swyddogion Prosiect BRICS â Swyddog Ardal Cadwraeth Arbennig Sir Benfro Forol a gwirfoddolwyr prosiect SWEPT a oedd yn canŵio i lawr y Cleddau ar ddiwrnod hynod o berffaith o ran y tywydd ym mis Ionawr!

Mae prosiect gwirfoddolwyr SWEPT wedi recriwtio gwirfoddolwyr i gasglu a phrofi samplau dŵr croyw ar gyfer nitradau a ffosffadau yn Nyfrffordd y Ddau Gleddau (dolen i wefan prosiect SWEPT)

Roedd yn ddiddorol, yn braf ac yn ddefnyddiol gweld sut mae prosiect SWEPT yn defnyddio canŵs i wirfoddolwyr gyrraedd a samplu mewnbynau dŵr croyw llai hygyrch sy'n llifo i'r aber. Bydd dadansoddiad o'r data a gesglir o ddiddordeb i brosiect BRICS.

Mae BRICS yn brosiect ymchwil sy'n mabwysiadu dull arloesol reoli adnoddau naturiol yn yr

ardal, er budd cymunedau a busnesau'r ardal.

Rydym yn canolbwyntio ar dair ardal ar draws Sir Benfro:

- Pelcomb Brook
- Winterton Marsh
- Llys-y-Frân

Gan weithio yn y 3 is-ddalgylch afon amrywiol hyn, bydd y prosiect yn profi dull gwirfoddol o gyflawni cynlluniau cyngori ar atal llygredd sy'n canolbwyntio ar faethynnau, tynnu sylw at gyfleoedd ac argymell camau i wella gwaith rheoli dŵr a phridd ar ffermydd.

Mae partneriaid y prosiect yn cynnwys y gadwyn gyflenwi, rheolwyr tir, diwydiant, mudiadau cadwraeth, undebau ffermio, Dŵr Cymru, cwmnïau cydweithredol ffermio, awdurdodau, Cyfoeth Naturiol Cymru a chymunedau yn gweithio gyda'i gilydd i feithrin cadernid busnesau fferm.

Ar yr un pryd, bydd y prosiect yn cyfrannu at ddatblygiad economaidd cynaliadwy.

Datblygwyd ac ariennir BRICS drwy'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy sy'n rhan o Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Os ydych chi'n ffermwr neu'n berchennog tir yn un o'r is-ddalgylchoedd a restrir uchod ac

yn dymuno cael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Emma Taylor, Swyddog Prosiect BRICS ar 01834 860965 neu [emmat@planed.org.uk](mailto:emmat@planed.org.uk).

Os oes gennych ddiddordeb neu os ydych chi'n credu yr hoffech gymryd rhan mewn cynllun masnachu maethynnau, cysylltwch â Paul Renfro, Swyddog Prosiect BRICS ar 01646 405693 neu [paul.renfro@pembrokeshirecoastforum.org.uk](mailto:paul.renfro@pembrokeshirecoastforum.org.uk)